

BEATRIZ SANTIAGO MUÑOZ

“Gallaf siarad yn benodol am ddelwedd tirwedd yn Puerto Rico a sut mae wedi cael ei chynrychioli’n weledol mewn ffyrdd cyfyngedig iawn – yn bennaf drwy gynrychiolaeth filwrol, hiraethus, amaethyddol o’r 1930au i’r 1940au. Erbyn hyn, caiff ei chynrychioli’n bennaf gan ddelweddau o dwristiaeth a’r diwydiant gwasanaeth. Ac rydym yn eu hymgorffori ac yn eu hatgynhyrchu nhw hefyd. Mae’r rhain yn ffyrdd penodol o weld sy’n gysylltiedig ag arglwyddiaeth a pherchnogaeth; tirwedd sy’n cael ei phortreadu fel tirwedd ddilychwin bron bob amser, er ei bod wedi’i bomio ers trigain mlynedd. Os byddwch yn nofio fe welwch gimychiaid a chregyn môr yn byw ar daflegrau. Os na, yna nid ydych yn gweld dim. Nid ydych yn gweld dim mwy nag wyneb hardd y cefnfor.”

Beatriz Santiago Muñoz o gyfweiliad gydag Ionit Behar yn Arts Slant

www.fabricainutil.com/index.php/texts/art-slant-interview--ionit-behar/

“I can talk specifically about the image of a landscape in Puerto Rico and how it has been represented visually in very limited ways – mostly in terms of the military, nostalgic, agricultural representation of the 1930 to 1940s. Now most representations are dominated by tourism and the service industry. And we embody them and reproduce them as well. These are specific ways of seeing that have to do with domination and ownership; a landscape that is always portrayed almost as a pristine landscape, even when it has been bombed for 60 years. If you swim you will see lobsters and seashells living on missiles. If you don’t, then you see nothing. You just see the beautiful surface of the ocean.”

Beatriz Santiago Muñoz from an interview with Ionit Behar in Arts Slant

www.fabricainutil.com/index.php/texts/art-slant-interview--ionit-behar/

BEATRIZ SANTIAGO MUÑOZ



Corwynt Maria

Tarodd Corwynt Maria ddeddwyrain Puerto Rico ar 20 Medi 2017 gyda gwyntoedd cyson o 155 milltir yr awr (250 cilometr yr awr). Ar ei anterth, achosodd y corwynt categori 5 ddinistr trychinebus ar draws gogledd-ddwyrain y Caribî, gan ladd 2,975 o bobl. Ystyrir mai Corwynt Maria yw'r trychineb naturiol gwaethaf i effeithio ar Puerto Rico a'r ynysoedd cyfagos ers i gofnodion ddechrau cael eu cadw.

*Ffynhonnell y Ddelwedd:
Arsyllfa'r Ddaear*

Hurricane Maria

Hurricane Maria hit south east Puerto Rico on September 20th, 2017 with sustained winds of 155 miles per hour (250 kilometres per hour). At its peak, the category 5 hurricane caused catastrophic destruction across the north east Caribbean and resulted in 2,975 fatalities. Hurricane Maria is regarded as the worst natural disaster to have affected Puerto Rico and the surrounding islands in recorded history.

Image Source: The Earth Observatory

BEATRIZ SANTIAGO MUÑOZ

Baner Puerto Rico

Crëwyd baner wreiddiol Puerto Rico, baner chwyldroadol Lares, gan Dr. Ramón Emeterio Betances a'i brodio gan Mariana "Brazos de Oro" Bracetti cyn gwrthryfel Lares ym 1868 yn erbyn y gwladychwyr Sbaenaidd gwreiddiol. Yn ddiweddarach, ar 4 Gorffennaf 2016, peintiodd pedwar artist benywaidd y faner hon yn ddu gan ddefnyddio caniau o baent chwistrellu a rholiau o dâp. Yn ôl y gydweithfa anhysbys, La Puerta, roedd ailbeintio'r faner yn ffordd o ail-radicaliddio'r cysyniad o faner Puerto Rico yn ogystal â dangos gwrthwynebiad i wladychu gan yr Unol Daleithiau a'r mesurau cyni a osodwyd yn sgil hynny.

Puerto Rican Flag

Puerto Rico's original flag, the Revolutionary Flag of Lares, was conceived by Dr. Ramón Emeterio Betances and embroidered by Mariana "Brazos de Oro" Bracetti prior to the Lares uprising of 1868 against original Spanish colonisers. Later, on July 4th, 2016, using cans of spray paint and rolls of tape, four female artists blackened this flag. According to the anonymous collective, La Puerta, the repainting of the flag was "a way of re-radicalizing the concept of the Puerto Rican flag" as well as a show of resistance to US colonisation and its imposed austerity measures.



BEATRIZ SANTIAGO MUÑOZ

THEY SAY

Mae Deddf Dociau a Phorthladdoedd 1968, sy'n deillio bron air am air o Ddeddf Porthladdoedd Sbaen 1880, yn diffinio'r parth pontio rhwng tir a môr fel y gofod oddi ar arfordiroedd ynys Puerto Rico ac ynysoedd cyfagos. Mae'r menywod yn dweud efallai mai dyna a ddywed y gyfraith, ond rydym yn sôn am rywbeth sydd gennym yn gyffredin, rhywbeth na all fod yn eiddo i neb, yn yr un modd na all neb fod yn berchen ar lygod mawr hutia neu ofariau neu afalau siwgr. Mae'r gyfraith yn dweud mai'r parth hwn yw'r ardal sy'n cael ei golchi gan y cefnfor yn ei llanw a'i thrai, lle teimlir effaith y llanw a'r tonnau mwyaf yn ystod storm, lle maent ac nad ydynt ar yr un pryd. Dywed y menywod na all rhywbeth cyffredin berthyn i neb, ddim i'r gydweithfa hyd yn oed. Mae y tu allan i'r hyn y gellir ei enw, a chan nad oes ganddo enw, nid yw'n enwi, nid oes ganddo berthynas i'w henwi, ni fydd byth yn enw.

Mae gwenyn y tu mewn i lysiau'r swynwyr, meddai'r menywod. Dyna'r mêl rydyn ni'n ei storio fel y gallwn gysgu'n hwyrach, a breuddwydio, fel y gallwn wneud yr ogofâu di-ben-draw, fel y gallwn glywed sŵn yr ystlumod. Mae'r cŵn benywaidd yn gorwedd ar y ddaear sych ac mae'r holl anifeiliaid yn gorwedd yno gyda'u horganau atgenhedlu'n wynebu am i fyny. Mae'r menywod yn dweud bod dyfodol y ceiliog yn gliriach na'i bresennol. Yn y nos mae'r menywod yn cerdded i lawr i'r ogof di-ben-draw ac yn hwylio yn y tywyllwch nes eu bod wedi teithio dros greigiau, drwy giwana ystlumod, yr aflafaredd cyn y wawr.

**Y MÊL RYDYN NI'N EI STORIO AR GYFER YR OGOFÂU DI-BEN-DRAW. Y LLWYBR WEDI'I
GLIRIO, WEDI'I FARCIO.**

O: THEY SAY, Beatriz Santiago Muñoz, *A Universe of Fragile Mirrors*, a gyhoeddwyd gan Perez Art Museum Miami, 2016

BEATRIZ SANTIAGO MUÑOZ

THEY SAY

The Dock and Harbor Act of 1968, which is derived almost verbatim from the Spanish Harbors Act of 1880, defines the land-sea transition zone as the space off the seacoasts of the island of Puerto Rico and adjacent islands. The women say that may be what the law says, but we're talking about a thing we hold in common, a thing no one can own, as no one can own hutias or ovaries or sugar apples. The law says that this zone is the area washed by the ocean in its ebb and flow, where the effect of tides and the largest waves during storm are felt, where they are and are not at the same tie. The women say that a common thing cannot belong to anyone, not even t the collective. It is outside the nameable, and since it has no name, it does not name, it has no relationship to name, it will never be a name.

Bees are inside the nightshade flowers, the women say. That's the honey we store up so we can sleep later, and dream, so we can make the infinite caves, so we can hear the sound of the bats. The female dogs lie down on the dry earth and all the animals lie there with their reproductive organs up. The women say that the rooster's future is clearer than its present. At night the women walk down to the cave that has no end and sail in the darkness until they have journeyed over rocks, through bat guano, the cacophony before dawn.

THE HONEY WE STORE UP FOR THE INFINITE CAVES. THE PATH CLEARED, MARKED.

From: THEY SAY, Beatriz Santiago Muñoz, *A Universe of Fragile Mirrors*, published by Perez Art Museum Miami, 2016